

Cofion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mr Robert Davies, Pen Aled, Llansannan. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Mrs Davies a'r teulu oll, gan weddio y byddant yn profi Duw yn agos yn eu galar a'u hiraeth amdano.
- Yn yr un modd, cydymdeimlwn ag Ifor Jones (Nantglyn) ac Irwyn Jones (Tanyfron) a'u teuluoedd yn dilyn marwolaeth eu chwaer. Cyflwynwn hwythau hefyd i ofal yr Arglwydd, gan ddeisyf Ei nodded iddynt hwythau.
- Yr ydym yn parhau i gofio Elfed Davies (Saron) yn ein gweddïau, ac yn hyderu ei fod yn adnabod tangnefedd Duw yn ei galon. Diolchwn am y gofal y mae'n ei brofi yn Ysbyty Glan Clwyd. Diolchwn hefyd am y gofal a gafodd William Jones (Llanefydd) tra'n yr Inffirmari. Da deall iddo gael dod adre o'r ysbyty erbyn hyn wedi cyfnod go hir yno. Parhawn i gofio amdano ef a'i deulu hefyd.
- Hefyd, anfonwn ein cofion at ein cyfeillion mewn cartrefi gofal – Mrs Eiddwen Jones a Mrs Myra Hughes (Maes Elwy); Mr Aneurin Evans (Park Lodge); Mrs Mair Roberts, Mrs Morfudd Davies, a Miss Hannah Alice Jones (Yr Hen Ficerdy); Mr Howell Jones (Bryn yr Eglwys); Mr Gwilym Foulkes (Dolwen); Miss W J Roberts (Yr Hen Ddeondy); Mrs Jane Jones (Southern House); a Mr Harold Lloyd (Hafan Gwydir). Gobeithiwn eu bod yn profi gofal a grym ein gweddïau drostynt hwythau.
- Llongyfarchiadau calonnog i Llion Jones (Llansannan) a Cerys ar enedigaeth mab.

Sasiwn Genhadol y Chwiorydd

Eleni, cynhelir Sasiwn Genhadol y Chwiorydd yn Llangefni ar ddydd Mercher, Mai 4ydd. Bwriedir trefnu bws i fynd draw yno - enwau i Mrs Helen Parry (550276) **erbyn Ebrill 4ydd**, os gwelwch yn dda. ***SYLWCH AR Y DYDDIAD NEWYDD.***

Bydd Mair (ar ran Chwiorydd y Fro) yn falch o dderbyn **cyfraniadau'r eglwysi tuag at y Sasiwn erbyn Ebrill 10fed** fan bellaf.

I ddod

- Cyfarfod cyntaf y **Pwyllgor Bugeiliol** yn Llanefydd nos Fawrth, Ebrill 12fed.
- Cyfarfod nesaf o **Darganfod Cristnogaeth** yng Nghefn Meiriadog ar Ebrill 13eg.
- **Cyfarfod Cymdeithasol Chwiorydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn Ffestri Capel Mawr, Dinbych ar Ebrill 14eg am 7.30. Y siaradwr fydd y Parch Emllyn Richards. Lluniaeth: £2
- **Gŵyl Gristnogol Llanw** yng Nghei Newydd, Ebrill 25ain-29ain. Mwy o wybodaeth ar y wefan - www.llanw.org

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 3^{ydd} Ebrill 2011

Sylwch fod angen enwau pawb sydd am fynd ar y bws i Sasiwn y Chwiorydd erbyn yfory. Mwy o fanylion ar y cefn.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da iawn i chi a chroeso arbennig i'r oedfaon heddiw - cyfle newydd i gyd-addoli ac i geisio Duw hefo'n gilydd. O ganol ein prysurdeb, mynnwn roi amser a lle i gyd-gyfarfod ac i gyd-addoli. Cymdeithas yw'r eglwys a chreu perthynas glos yw gwaith Duw. Dod i chwalu'r muriau sy'n ein gwahanu a wnaeth Crist trwy ei farwolaeth ar y groes; chwalu popeth sy'n gwahanu ac adfer cyfeillgarwch. Os yw'n bosibl i chi heddiw felly, beth am ddod i oedfa ac i bresenoldeb Duw hefo'n gilydd. Mae Duw wedi addo bendithio'r rhai sy'n dod ato hefo calon ddisgwylgar.

Gweddïwn hefyd dros y rhai sy'n methu dod i'r oedfaon oherwydd anhwylder a salwch. Rydym yn dymuno presenoldeb Duw yn ei gysuron a'i nerth i chwithau hefyd gan wybod bod Crist yn eiriol drosoch heddiw o orsedd ei drugaredd a'i fuddugoliaeth.

Rydym yn edrych ymlaen at y Pasg o ganol tymor wyna; Oen Duw wedi dod i'n plith – ei eni yn stabl yr anifail a'i osod mewn preseb; Herod yn ceisio ei fywyd i'w ladd fel rhyw hen llwynog dichellgar a'r teulu yn ffoi i'r Aifft. Dyma oedd cychwyn yr erledigaeth a brofodd yr Iesu ar hyd ei oes. Ond Crist ei hun oedd yr Arglwydd ymhob sefyllfa ac o'i wirfodd yr aeth i fyny i Jerwsalem y Pasg hwnnw fel Oen i'r lladdfa ond eto yn Arglwydd: yn Fugail Da.

Gwelais oen bach wedi ei reibio gan llwynog yr wythnos yma. Roedd golwg druenus ar y bychan diniwed. Hen greulondeb. Ond o du'r llwynog, hen ysfa am ysglyfaeth a bwyd i oroesi. Wrth ystyried beth a ddigwyddodd ar y groes, beth a welwn ni dybed? Creulondeb? Y diniwed yn dioddef? Diwedd cyfiawn i gablwr a thwyllwr? Mae hi'n olygfa nad oes modd ei chymharu. Ond eto mae'n rhaid edrych ac ystyried.

Wrth ddamnio'r llwynog bydd y ffermwr hefyd yn cyfri cost y golled. Mae colli anifail da yn loes ac mae'r golled ariannol yn realiti creulon hefyd. Yn oedfaon y Fro rhwng heno a'r Pasg byddwn yn ystyried, os Duw a'i myn, ddywediadau Iesu ar y groes. Un ohonynt yw'r hyn a ddywedodd wrth y lleidr ar y dde iddo. Dywedodd wrtho, ar sail ei gred a'i ffydd newydd, y cai fod gyda Christ 'ym mharadwys'. Dyna newyddion da i'r dyn! A dyna yw neges yr Efengyl o hyd – Crist yn cyhoeddi i bechadur faddeuant a derbyniad llawn ar sail ffydd ynddo – a hynny o groes Calfaria! Edrych, credu, a gweld dim colled! Popeth yn ennill i ni a'n dyledion oll yn cael eu talu'n llawn.

"Wrth edrych, Iesu, ar dy groes,
A meddwl dyfnder d'angau loes,
Pryd hyn rwyf yn dibrisio'r byd
A'r holl ogoniant sy' ynddo 'nghyd.

Dyma lle'r ydoedd ar brynhawn
Rasusau yn disgleirio'n llawn:
Mil o rinweddau yn gytun
Yn prynu'r gwrthgiledig ddyn. "

I. Watts efel. W. Williams

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elen Elias, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llun **Grŵp genod blynyddoedd 7-11** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
Adnabod Addoli yn y Granar am 8.00.

Iau **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.
Astudiaeth Feiblaidd dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30.

Sul nesaf Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma Bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang yn Llanfair **am 10.00** gyda Mrs Mairwenna Lloyd yn rhoi anerchiad. Bydd hefyd yn cynrychioli'r Henaduriaeth ac yn cynnal pleidlais ddirgel er mwyn dewis dau/ddwy aelod (sydd ddim yn flaenoriaid) i gynrychioli **Capel Soar** ar y Pwyllgor Bugeiliol. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Sul nesaf Bydd Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Meiriadog am 2.00 a bydd y Parch John Barnett yn arwain oedfa yng Nghapel Hyfrydle, Llanfair am 3.15. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan ***Cyfraniadau tuag at gasgliad y Sasiwn i Iorwen Roberts mor fuan a phosibl, os gwelwch yn dda.***

Sul yma Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.

Iau Cinio'r Jangl am 12.00.

Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

Sul yma Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00. Ar ddechrau'r oedfa, bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn cynnal pleidlais ddirgel er mwyn dewis dau/ddwy aelod (sydd ddim yn flaenoriaid) i gynrychioli **Capel Tanyfron** ar y Pwyllgor Bugeiliol.

Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Ar ddechrau'r oedfa, bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn cynnal pleidlais ddirgel er mwyn dewis dau/ddwy aelod (sydd ddim yn flaenoriaid) i gynrychioli **Capel Saron** ar y Pwyllgor Bugeiliol. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.

Sul nesaf Bydd y Parch Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00.

Henllan a Groes

Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Groes am 10.00. Ar ddechrau'r oedfa, bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn cynnal pleidlais ddirgel er mwyn dewis dau/ddwy aelod (sydd ddim yn flaenoriaid) i gynrychioli **Capel y Groes** ar y Pwyllgor Bugeiliol. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00, gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod **yn Henllan**.

Sul nesaf Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma Bydd y Parch Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Ar ddechrau oedfa'r bore, bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn cynnal pleidlais ddirgel er mwyn dewis dau/ddwy aelod (sydd ddim yn flaenoriaid) i gynrychioli **Capel Cefn Berain** ar y Pwyllgor Bugeiliol. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.

Sul nesaf Bydd y Parch John Robinson yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair - ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536, neu i

Aneurin - ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102

erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.